Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL

01 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023

www.tancgc.gov.uk





# Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer y cyfnod Ebrill 2022 i Fawrth 2023. Dyma ein trydydd Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol sy'n gysylltiedig â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020 – 2024, gan dynnu sylw at yr hyn yr ydym wedi'i wneud i ymgysylltu â'n cymunedau; cefnogi anghenion amrywiol ein staff; ac ymgorffori cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ymhellach yn ein sefydliad.

Mae Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Gwasanaeth yn un o'r ffyrdd yr ydym yn dangos i ba raddau yr ydym yn bodloni ein rhwymedigaethau cyfreithiol a moesol i gydnabod amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb a chynhwysiant.

Dyma ein hadroddiad cyntaf yn dilyn codi'r cyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig â phandemig y Coronafeirws, a gafodd effaith sylweddol ar ein gallu i gyflwyno gweithgareddau yn y gymuned. Rydym wedi parhau i ddarparu ein gweithgareddau brys rheng flaen a'n gweithgareddau ataliol risg uchel hanfodol ac wedi ailgychwyn casglu data ar gyfer gweithgareddau megis ein holiadur 'Y Bobl a Wasanaethwn' – bydd hyn yn amlwg yn yr wybodaeth a'r data a gyflwynir yn yr adran berthnasol o'r adroddiad ar gyfer 2022/23.

Mae'r Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol yn rhoi cyfle i ni ddathlu ein cynnydd parhaus o ran hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant o fewn ein Gwasanaeth a'r cymunedau yr ydym yn falch o'u gwasanaethu. Fodd bynnag, nid ydym yn hunanfodlon ac rydym yn cydnabod bod llawer iawn o waith i'w wneud i sicrhau ein bod yn dileu gwahaniaethu ac yn sicrhau cyfle cyfartal i bawb. Credaf ein bod, fel sefydliad, wedi parhau i symud ymlaen yn gadarnhaol yn y maes hwn, ac mae'n galonogol bod llawer o'r gwaith hwn wedi cyflawni canlyniadau cadarnhaol i aelodau o'n cymunedau lleol.



**Roger Thomas**

Y Prif Swyddog Tân

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn croesawu sylwadau ar bob agwedd ar yr adroddiad hwn, o ran yr hyn sydd ynddo a'r hyn nad yw'n ddigon eglur efallai am y gwaith yr ydym wedi'i wneud.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu os hoffech wybod mwy am y gweithgareddau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn, cysylltwch â:

**Mr Mydrian Harries**
Cyfarwyddwr Adnoddau

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru,
Pencadlys y Gwasanaeth, Lôn Pisgwydd, Caerfyrddin, SA31 1SP
**Ffôn:** 01267 226830 | E-bost: m.harries@mawwfire.gov.uk
**www.tancgc.gov.uk**

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Pwy ydym ni** | **2** |
| **Ein Gweledigaeth, Cenhadaeth, Gwerthoedd a Blaenoriaethau** | **4** |
| **Ble ydym ni** | **5** |
| **Dyletswydd Gyffredinol** | **5** |
| Amcan 1 | 5 |
| Amcan 2 | 7 |
| Amcan 3 | 8 |
| **Atodiadau:** | **10 - 25** |
| Data Staff – Cyffredinol | |
| Data Staff – fesul Lefel Reolaethol | |
| Data Recriwtio Staff Cefnogol | |
| Data Recriwtio Ar Alwad | |
| Data Dyrchafiadau | |
| Data Trosglwyddo Staff | |
| Data Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref | |
| Data Ymgysylltu / Ymgynghori | |
| Data Ymateb i Ddigwyddiadau | |


**Mae'r adroddiad hwn ar gael yn y Gymraeg a gellir ei ddarparu hefyd mewn fformatau ac ieithoedd eraill. Os hoffech gael copi o'r adroddiad mewn iaith neu fformat arall, cysylltwch â humanresources@mawwfire.gov.uk**

**Mae ein Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol a'n Hadroddiadau Cydraddoldeb Blynyddol cysylltiedig ar gael ar ein gwefan, neu gellir gofyn amdanynt ar ffurf copi caled ym mha bynnag fformat sydd ei angen arnoch.**

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu'r flwyddyn ariannol Ebrill 2022 i Fawrth 2023 ac fe'i cyflwynir o dan ein gofynion adrodd statudol, fel y nodir gan reoliad 16 o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.

## Beth mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn ei olygu i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru?


Mae'r Gwasanaeth yn ystyried Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn faterion busnes allweddol, a'r prif ffactorau sy'n sbarduno'r Gwasanaeth i gymeradwyo strategaethau sy'n ymwneud ag amrywiaeth yw:

- Rheoli risg ac enw da
- Gwella perfformiad unigolion a'r busnes
- Datblygu diwylliant creadigol, arloesol
- Diwallu anghenion ein cymunedau
- Denu, cadw a datblygu gweithwyr
- Cydymffurfio â Deddfwriaeth


Mae cyfle cyfartal yn cwmpasu ymagwedd y Gwasanaeth nid yn unig tuag at ddarparu gwasanaethau, ond at sicrhau mynediad at wasanaethau a gwybodaeth, a chynhwysiant o fewn prosesau gwneud penderfyniadau, a sicrhau craffu ac asesu effaith ar gydraddoldeb polisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth yn barhaus, er mwyn darparu ar gyfer sefydliad sy'n ymdrechu tuag at ddileu gwahaniaethu yn erbyn unrhyw grŵp(iau) neu unigolyn.



# PWY YDYM NI




1 Ebrill 2022-31 Mawrth 2023



# Rôl yr Awdurdod Tân



Mae Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys 25 aelod etholedig sy'n cynrychioli wardiau unigol o fewn 6 Awdurdod Unedol cyfansoddol, sy'n ffurfio ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru.
Yr Awdurdodau Unedol yw:

Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth diogelwch i'r cyhoedd, rhaglenni atal ac amddiffyn, a darpariaeth ymateb brys ar gyfer ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r sefydliad yn cyflogi tua 1,300 aelod o staff yn y gwahanol gategorïau o gyflogaeth h.y. Staff Gweithredol, Rheoli a Chefnogol, ac mae'n cwmpasu tua 4,500 milltir sgwâr – bron dwy ran o dair o Gymru, gan wasanaethu ystod eang o gymunedau o fewn ei hardaloedd arfordirol, trefol a gwledig.

## Rôl yr Awdurdod Tân

Rôl Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yw cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau priodol, ac yn benodol:

- Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994
- Gorchymyn Gwasanaethau Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru (Cynllun Cyfuno) 1995 fel y'i diwygiwyd (y Gorchymyn Cyfuno) a sefydlodd ddarpariaeth Awdurdod Tân Cyfun i gwmpasu ardaloedd Siroedd newydd Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Castell-nedd a Phort Talbot, Sir Benfro, Powys ac Abertawe.
- Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004.
- Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005.
- Gorchymyn Cynlluniau Cyfunol y Gwasanaethau Tân ac Achub (Amrywio) (Cymru) 2009.
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.
- Deddf Cydraddoldeb 2010.
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.
- Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Llywodraeth Cymru 2016.

- Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- Rheoliadau Anghydraddoldebau Economaidd-gymdeithasol (Cymru) 2021.

Mae gan yr Awdurdod rwymedigaeth statudol i gynnal Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n gallu delio'n effeithiol â galwadau am gymorth yn achos tân ac argyfyngau eraill.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru wedi ymrwymo i amddiffyn pobl, eiddo a'r amgylchedd rhag tân a digwyddiadau brys eraill yn ogystal â darparu gwasanaethau dyngarol eraill. Cyflawnir hyn drwy gynnwys a hysbysu'r gymuned a gweithio mewn partneriaeth ag eraill i ennyn ethos cymunedau mwy diogel, a darparu gwasanaeth gwerth am arian i'r rhai sy'n byw ac sy'n gweithio yn, neu sy'n ymweld â chanolbarth a gorllewin Cymru.

Rôl yr Awdurdod yw darparu gwasanaethau ataliol rhagweithiol, a gwasanaethau tân ac achub ymatebol i bobl canolbarth a gorllewin Cymru mewn ffordd agored, dryloyw a chost-effeithiol, gan weithredu er lles pennaf canolbarth a gorllewin Cymru a'i dinasyddion. Wrth gyflawni ei rôl, mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn ceisio gweithredu er lles ei holl awdurdodau cyfansoddol a'u dinasyddion, ac wrth wneud hynny mae'n gosod llesiant cyfunol uwchlaw buddiannau unigolion neu grwpiau penodol yn unol ag egwyddorion gorau llywodraeth leol ddemocrataidd. Yn ogystal, mae'n ofynnol i'r Awdurdod:

- Gytuno ar ei Gynlluniau Gwella Blynyddol, y cyllidebau refeniw a chyfalaf a'r cyfraniad gan y cynghorau cyfansoddol.
- Monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf a delio ag unrhyw amrywiadau sylweddol, gan gynnwys penderfyniadau ar unrhyw gyfraniadau atodol.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael ei arwain gan y Prif Swyddog Tân, sydd â chyfrifoldeb rheolaeth gorfforaethol a chyfrifoldeb gweithredol cyffredinol dros y sefydliad, ac ef yw'r Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig.



ein gweledigaeth:

# Bod yn Arweinydd Byd ym maes Ymateb i Argyfwng a Diogelwch Cymunedol

ein cenhadaeth:

# Ymgysylltu, cysylltu, datblygu ac ysbrydoli pobl i ddarparu gwasanaeth rhagorol

ein gwerthoedd:

| GWNEUD Y PETH IAWN | TRIN POBL Â PHARCH | PERFFORMIO'N RHAGOROL |
|---|---|---|

Petai gweithlu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael ei gywasgu i grŵp o

**oddeutu 100 o bobl**

**gan gadw'r holl gymarebau dynol presennol fel y maent, byddai'r sefyllfa fel a ganlyn:**

**81** Dyn

**19** Benyw

**44** o aelwydydd sengl

**23** o bobl sy'n gallu siarad Cymraeg

**2** yn Lesbiaidd, Hoyw neu'n Ddeurywiol

**3** o'r gweithlu ag anabledd

**35** yn Gristnogion

**1** yn arddel crefydd arall

religion

**35** heb grefydd

(**29** yn dewis peidio â dweud)

**5** o bobl 16-24 oed

**57** o bobl 25-44 oed

**37** o bobl 45-64 oed

**1** person dros 65+ oed

**98** o bobl o gefndir gwyn ac

**2** o gefndir nad yw'n wyn

(heb gynnwys Diffoddwyr Tân Ar Alwad)

**18** aelwyd sy'n ennill llai na 22K y flwyddyn

**3** aelwyd sy'n ennill mwy na 55K y flwyddyn

# Ble Ydym Ni

### Dyletswyddau Penodol Cymru Deddf Cydraddoldeb (2010)

Mae'r adran hon yn dangos yr hyn yr ydym wedi'i wneud a'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud, mewn perthynas â Dyletswyddau Penodol Cymru; ac mae'n ategu, yn hytrach na dyblygu, yr wybodaeth sydd yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cynhwysfawr.

# Amcan 1

**Archwilio pob agwedd ar gylch bywyd y gweithiwr, gan sicrhau bod y Gwasanaeth yn gallu denu, penodi, dyrchafu a chadw gweithlu mor amrywiol â phosibl.**

## Rheswm

Bydd meddu ar broffil gweithlu amrywiol yn galluogi'r Gwasanaeth i wella ymhellach y gwasanaethau a ddarperir a bod yn fwy ymatebol i anghenion cymunedau lleol..

## Yr hyn a wnaethom

- Hyrwyddo ymgyrchoedd megis 'Mwy na Gwasanaeth Tân' a lansio'r fideo 'Mwy na Dim ond Tanau'; gyda'r bwriad o dynnu sylw at a hyrwyddo gweithgareddau sydd y tu hwnt i ganfyddiad pobl o wasanaeth tân ac achub traddodiadol.
- Ailstrwythuro Grŵp Gweithlu Cynhwysol y Gwasanaeth i ailsefydlu ein hamcanion a sicrhau bod y Gwasanaeth yn darparu platfform effeithiol sydd o fudd i staff a chymunedau.
- Hyrwyddo'r defnydd parhaus o hyfforddi a mentora yn y Gwasanaeth yn dilyn pennu is-arweinwyr ar gyfer y recriwtiaid Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn newydd i gynyddu mynediad at gymorth.
- Cydweithio â Gwasanaethau Tân ac Achub eraill Cymru i gryfhau'r dull o ymdrin â Chydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ledled Cymru ac annog mwy o amrywiaeth drwy weithdrefnau'r Gwasanaeth.
- Sicrhau achrediad y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth a Datblygiad Proffesiynol Parhaus.
- Cynhyrchu 'Prosbectws Dysgu a Datblygu', gan nodi'r holl gyfleoedd dysgu a datblygu sydd ar gael i'r holl staff.
- Ymgysylltu'n weithredol ag arweinwyr mewnol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ymhellach o sut i feithrin gweithlu cynhwysol trwy hyfforddiant allanol.
- Adolygu'r ffordd yr ydym yn portreadu rôl Diffoddwr Tân yn allanol ar ein platfformau cyfryngau

cymdeithasol a sicrhau, cyn belled ag y bo modd, ein bod yn defnyddio amrywiaeth o ddelweddau sy'n adlewyrchu realiti'r rôl fodern, yn ogystal â defnyddio delweddau o staff presennol o bob rhan o'r sefydliad ac o bob sector o gymdeithas.

- Rhoi cymorth ar waith i'r holl staff sy'n cymryd rhan mewn cynnal cymhwysedd trwy asesiadau niwroamrywiaeth a hyfforddiant hygyrch sy'n talu sylw i bob arddull ddysgu.
- Defnyddio'r Systemau Dysgu Gweithredol i ganiatáu adborth gan y gweithlu mewn perthynas â gwelliannau posibl a chanlyniadau dysgu.
- Datblygu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Recriwtio a Chadw; gan ddwyn ynghyd wahanol adrannau o bob rhan o'r Gwasanaeth i feincnodi'r Gwasanaeth a nodi meysydd i'w datblygu yn y dyfodol.
- Datblygu Diwrnodau Profiad, gan ddarparu cyfleoedd i'r rhai sydd am ymuno â'r Gwasanaeth Tân archwilio mwy am y rôl; pennu meysydd i'w datblygu cyn recriwtio; ac agor llinellau cyfathrebu gyda'n cymuned.
- Parhau i gynnig llwybr i bob gweithiwr roi adborth ar y darpariaethau presennol, cyflwyno syniadau newydd a chymryd rhan mewn datblygu'r Gwasanaeth drwy Fforwm Syniadau'r Gwasanaeth.
- Comisiynu gwisg newydd ar gyfer diffoddwyr tân benywaidd y gallant fod yn falch o'i gwisgo.
- Datblygu rhwydwaith mewnol Menywod yn y Gwasanaeth Tân yn dilyn gweithdy a roddodd blatfform ar gyfer syniadau ac adborth ar brofiadau menywod yn y Gwasanaeth.

## Yr hyn y bwriadwn ei wneud o hyd

- Datblygu Strategaeth Recriwtio'r Gwasanaeth i ddarparu dull clir ac unedig o gyrraedd cymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol o fewn y gweithlu ehangach.
- Sicrhau ein bod yn estyn allan i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd o fewn ein gweithlu ehangach fel rhan o ymgyrchoedd recriwtio gwirfoddolwyr yn y dyfodol.
- Parhau i gefnogi a symud ymlaen drwy lefelau'r Cynllun Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd.
- Parhau i weithio tuag at leihau'r Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau, fel yr amlinellir yn y cynllun gweithredu sydd wedi'i gynnwys yn yr Adroddiad Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau blynyddol.
- Parhau i ddatblygu rhwydweithiau heb gynrychiolaeth ddigonol y Gwasanaeth i gynnig cyfleoedd i bawb er mwyn mynd i'r afael ag anghenion presennol y Gwasanaeth, staff a chymunedau.
- Parhau i gefnogi staff sydd ag anghenion dysgu ychwanegol drwy weithredu dull cydweithredol o gefnogi staff drwy eu gyrfa yn y Gwasanaeth.

# Amcan 2

**Dylunio a chyflwyno gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pawb yn ein cymunedau.**

## Rheswm

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i ddull cyfannol o ymdrin â diogelwch cymunedol er mwyn gwella iechyd a lles dinasyddion. Mae targed ein gwaith ataliol yn seiliedig nid yn unig ar set gydnabyddedig o ragdybiaethau o ran pa grwpiau yn ein cymunedau sydd fwyaf mewn perygl, ond hefyd drwy ymgysylltu â chymunedau i sicrhau ein bod yn dal risgiau newydd ac esblygol er mwyn i ni allu targedu ein hadnoddau a mireinio ein gwasanaethau yn unol â hynny.

## Yr hyn a wnaethom

- Gweithio gyda phartneriaid Iechyd i nodi'r rhai sydd mewn perygl uwch yn y gymuned i adolygu'r strategaeth dargedu lle bo angen.
- Sicrhau bod ymyriadau diogelwch yn y cartref yn parhau i gael eu darparu mewn amrywiaeth o ieithoedd ar gyfer unigolion sydd mewn perygl. Lle'r oedd angen cyngor penodol mewn gwahanol ieithoedd neu gyfryngau, defnyddiwyd cyfieithwyr a dehonglwyr gennym, gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain.
- Sicrhau ansawdd deunydd ysgolion drwy blatfform Stay Wise Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân, gan sicrhau bod yr holl ddeunydd wedi'i fapio yn erbyn y Cwricwlwm i Gymru.
- Gweithredu fel arweinydd strategol ar gyfer porth gwe Stay Wise Cymru, a gynlluniwyd i gynorthwyo'r gwaith o gyflwyno a darparu adnoddau addysgol ar gyfer gwefan Stay Wise.
- Datblygu'r adnodd Ymwybyddiaeth Diogelwch Tân i Fusnesau ar ein gwefan allanol i gefnogi busnesau â'u cyfrifoldebau.
- Parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol i ddenu ymgeiswyr amrywiol drwy ffeiriau gyrfaoedd a milwrol.
- Datblygu platfform ar-lein diogel i gasglu data o'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu y gellir ei ddefnyddio gan yr holl bersonél mewn digwyddiadau, hyfforddiant, ymweliadau â chartrefi, yn ogystal ag yn fewnol; gan gynyddu'r gyfradd gwblhau a darparu data sy'n fwy adlewyrchol o'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

## Yr hyn y bwriadwn ei wneud o hyd

- Parhau i esblygu model cyflwyno Diogel ac Iach i sicrhau ein bod yn targedu negeseuon i fynd i'r afael â'r rhai y nodwyd eu bod yn agored i niwed.
- Sefydlu Cynllun Rheoli Risg Cymunedol i sicrhau bod ein cynllunio yn cyd-fynd ag anghenion ein cymunedau.
- Parhau gydag unrhyw waith i gau bylchau a sicrhau cydymffurfiaeth lawn yn dilyn adolygiad llawn o gydymffurfiaeth yr Awdurdod â Safonau'r Gymraeg.

# Amcan 3

**Sicrhau bod ein gwybodaeth a'n gwasanaethau yn gwbl hygyrch, i'n staff ac i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.**

## Rheswm

Fel cyflogwr cyfrifol, mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i sicrhau bod ei wybodaeth a'i wasanaethau yn hygyrch i bawb sydd eu hangen.

## Yr hyn a wnaethom

- Rhoi ar waith yr holl argymhellion yn deillio o'r Archwiliad Hygyrchedd a wnaed ar wefan y Gwasanaeth i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol a gwella cynwysoldeb.
- Llunio a chyhoeddi ystod o negeseuon rhagweithiol sy'n caniatáu i'r Gwasanaeth gyflwyno ei negeseuon a'i ymyriadau allweddol i'r rhai sydd fwyaf mewn perygl.
- Rhoi ar waith gyfleuster tecstio i gefnogi'r rhai sydd ag amhariad ar y clyw neu anawsterau lleferydd i gysylltu â'r Gwasanaeth am ymyriadau Diogelwch Cymunedol.
- Hyfforddi Gwirfoddolwyr y Gwasanaeth i gefnogi gwaith Cymunedau Digidol Cymru i ddod â sgiliau digidol i'r rhai yn y gymuned sydd angen cymorth.
- Adolygu rhestr rhanddeiliaid y Gwasanaeth, gan gynnwys manylion grwpiau ychwanegol sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.
- Penodi gwasanaeth pensaer amlddisgyblaethol i weithio ar Gynlluniau penodol gyda Chymorth Cyfrifiadur i ddarparu gwybodaeth fanwl am ein hadeiladau i bawb.

## Yr hyn y bwriadwn ei wneud o hyd

- Parhau i ddatblygu ein hymwybyddiaeth o'r pocedi o allgáu digidol o fewn ein hardal i sicrhau bod ein gwaith ataliol yn hygyrch a bod ein negeseuon ar gael mewn fformatau a fydd yn diwallu anghenion y cymunedau hynny.
- Parhau i gynhyrchu fersiynau Hawdd eu Deall o ddogfennau allweddol gan gynnwys ein Cynlluniau Corfforaethol ac ystyried cynnwys taflenni diogelwch cymunedol drwy Grŵp Diogel ac Iach Cymru Gyfan i sicrhau bod y cynnwys yn Hawdd ei Ddeall.
- Dylunio, datblygu a chynnal gwefan newydd i'r Gwasanaeth. Y camau nesaf fydd dylunio a phrofi'r wefan gyda rhanddeiliaid allanol ar gyfer cymunedau amrywiol.


Compartment Fires



# Bydd angen cwblhau a chynnwys yr holl ddata cyn cyhoeddi Ebrill 2023

## DATA STAFF (01 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023)

### Rhywedd

| | |
|---|---|
| Benywaidd | 234 |
| Gwrywaidd | 983 |
| **Cyfanswm** | **1217** |

### Anabledd (Datganedig)

| | |
|---|---|
| Benywaidd | 6 |
| Gwrywaidd | 31 |
| **Cyfanswm** | **37** |

### Oedran

| | | |
|---|---|---|
| 16-24 | 14 | 53 |
| 25-34 | 63 | 240 |
| 35-44 | 69 | 317 |
| 45-54 | 55 | 281 |
| 55-64 | 29 | 90 |
| 65+ | 4 | 2 |
| **Cyfanswm** | **234** | **983** |

### Hil/Ethnigrwydd

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Tsieineaidd | 0 | 1 |
| Gwyn ac Asiaidd | 0 | 1 |
| Affricanaidd | 0 | 1 |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 0 | 1 |
| Bangladeshaidd | 1 | 1 |
| Indiaidd | 0 | 1 |
| Gwyn Prydeinig | 27 | 76 |
| Gwyn Arall | 177 | 846 |
| Du Arall | 0 | 2 |
| Cymysg Arall | 0 | 4 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 29 | 49 |
| **Cyfanswm** | **234** | **983** |

### Crefydd neu Gred

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Cristnogaeth | 70 | 354 |
| Islam | 0 | 2 |
| Bwdhaeth | 0 | 2 |
| Siciaeth | 0 | 0 |
| Arall | 2 | 5 |
| Dim | 71 | 353 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 91 | 267 |
| **Cyfanswm** | **234** | **983** |

### Statws Priodasol

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Sengl | 101 | 430 |
| Priod | 99 | 472 |
| Â Phartner | 8 | 25 |
| Wedi Ysgaru | 14 | 33 |
| Gweddw | 2 | 1 |
| Partneriaeth Sifil | 0 | 6 |
| Wedi Gwahanu | 2 | 3 |
| Arall | 2 | 2 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 6 | 11 |
| **Cyfanswm** | **234** | **983** |

### Hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth â'ch rhywedd pan gawsoch eich geni

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Ydy | 172 | 781 |
| Nac ydy | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 62 | 202 |
| **Cyfanswm** | **234** | **983** |

## Cyfeiriadedd Rhywiol

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Deurywiol | 4 | 8 |
| Hoyw / Lesbiaidd | 3 | 4 |
| Heterorywiol | 168 | 729 |
| Trawsryweddol | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 59 | 242 |
| **Cyfanswm** | **234** | **983** |

## Beichiogrwydd a Mamolaeth

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Ie | 14 | 0 |
| Na | 220 | 983 |
| **Cyfanswm** | **234** | **983** |



## Data Staff fesul Lefel Reolaethol

| Rhywedd | | Rheolwr Ardal [+] | Rheolwr Gorsaf a Rheolwr Grŵp [07-15] | Rheolwr Criw a Rheolwr Gwylfa [04-06] | Diffoddwr Tân [01-03] |
|---|---|---|---|---|---|
| Benywaidd | | 2 | 51 | 85 | 96 |
| Gwrywaidd | | 8 | 99 | 356 | 520 |
| | **Cyfanswm** | **10** | **150** | **441** | **616** |

| System Ddyletswydd | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Benywaidd | 0 | 7 | 10 | 22 |
| | Gwrywaidd | 7 | 62 | 139 | 143 |
| **Amser Cyflawn** | **Cyfanswm** | **7** | **69** | **149** | **165** |
| | Benywaidd | 0 | 2 | 4 | 10 |
| | Gwrywaidd | 0 | 0 | 4 | 6 |
| **Ystafell Reoli** | **Cyfanswm** | **0** | **2** | **8** | **16** |
| | Benywaidd | 2 | 42 | 69 | 27 |
| | Gwrywaidd | 1 | 37 | 45 | 8 |
| **Staff Cefnogol** | **Cyfanswm** | **3** | **79** | **114** | **35** |
| | Benywaidd | 0 | 0 | 2 | 37 |
| | Gwrywaidd | 0 | 0 | 168 | 363 |
| **Ar Alwad** | **Cyfanswm** | **0** | **0** | **170** | **400** |

## Recriwtio Amser Cyflawn (01 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023)

### Rhywedd

| | |
|---|---|
| Benywaidd | 2 |
| Gwrywaidd | 12 |
| Prefer Not to Say | 0 |
| **Cyfanswm** | **14** |

### Anabledd (Datganedig)

| | |
|---|---|
| Benywaidd | 0 |
| Gwrywaidd | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** |

### Oedran

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Dan 18 | 0 | 0 |
| 18-24 | 0 | 3 |
| 25-40 | 2 | 6 |
| 41-59 | 0 | 3 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2** | **12** |

## Hil/Ethnigrwydd

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Du Affricanaidd | 0 | 0 |
| Du Caribïaidd | 0 | 0 |
| Du Arall | 0 | 0 |
| Asiaidd Bangladeshaidd | 0 | 0 |
| Asiaidd Pacistanaidd | 0 | 0 |
| Asiaidd Indiaidd | 0 | 0 |
| Asiaidd Arall | 0 | 0 |
| Prydeinig | 0 | 0 |
| Tsieineaidd | 0 | 0 |
| Ewropeaidd | 0 | 0 |
| Teithiwr | 0 | 0 |
| Cymysg (Du/Gwyn) | 0 | 0 |
| Cymysg (Asiaidd/Du) | 0 | 0 |
| Cymysg (Asiaidd/Gwyn) | 0 | 0 |
| Cymysg Arall | 0 | 0 |
| Gwyn | 1 | 12 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 0 | 0 |
| Arall | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2** | **12** |

## Cyfeiriadedd Rhywiol

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Deurywiol | 0 | 0 |
| Hoyw / Lesbiaidd | 0 | 0 |
| Heterorywiol | 2 | 11 |
| Trawsryweddol | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **2** | **12** |

## Statws Priodasol

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Sengl | 1 | 8 |
| Priod | 0 | 1 |
| Â Phartner | 0 | 2 |
| Wedi Ysgaru | 1 | 0 |
| Gweddw | 0 | 0 |
| Partneriaeth Sifil | 0 | 0 |
| Wedi Gwahanu | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **2** | **12** |

## Crefydd neu Gred

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Cristnogaeth | 0 | 4 |
| Islam | 0 | 0 |
| Bwdhaeth | 0 | 0 |
| Siciaeth | 0 | 0 |
| Arall | 1 | 1 |
| Dim | 1 | 5 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 0 | 2 |
| **Cyfanswm** | **2** | **12** |

## Hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth â'ch rhywedd pan gawsoch eich geni

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Ydy | 2 | 10 |
| Nac ydy | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 0 | 2 |
| **Cyfanswm** | **2** | **12** |



# Ymadawyr Amser Cyflawn (01 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023)

## Rhywedd

| | |
|---|---|
| Benywaidd | 4 |
| Gwrywaidd | 29 |
| **Cyfanswm** | **33** |

## Anabledd (Datganedig)

| | |
|---|---|
| Benywaidd | 0 |
| Gwrywaidd | 1 |
| **Cyfanswm** | **1** |

## Oedran

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| 16-24 | 0 | 2 |
| 25-34 | 1 | 4 |
| 35-44 | 1 | 3 |
| 45-54 | 1 | 10 |
| 55-64 | 1 | 9 |
| 65+ | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **2** | **29** |

## Hil/Ethnigrwydd

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Tsieineaidd | 0 | 0 |
| Gwyn ac Asiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 0 | 0 |
| Bangladeshaidd | 0 | 0 |
| Indiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn Prydeinig | 3 | 28 |
| Gwyn Arall | 1 | 0 |
| Asiaidd a Gwyn | 0 | 0 |
| Cymysg Arall | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **4** | **29** |

## Crefydd neu Gred

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Cristnogaeth | 70 | 354 |
| Islam | 0 | 2 |
| Bwdhaeth | 0 | 2 |
| Siciaeth | 0 | 0 |
| Arall | 2 | 5 |
| Dim | 71 | 353 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 91 | 267 |
| **Cyfanswm** | **234** | **983** |

## Marital Status

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Sengl | 101 | 430 |
| Priod | 99 | 472 |
| Â Phartner | 8 | 25 |
| Wedi Ysgaru | 14 | 33 |
| Gweddw | 2 | 1 |
| Partneriaeth Sifil | 0 | 6 |
| Wedi Gwahanu | 2 | 3 |
| Arall | 2 | 2 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 6 | 11 |
| **Cyfanswm** | **234** | **983** |

## Hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth â'ch rhywedd pan gawsoch eich geni

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Ydy | 172 | 781 |
| Nac ydy | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 62 | 202 |
| **Cyfanswm** | **234** | **983** |

## Cyfeiriadedd Rhywiol

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Deurywiol | 0 | 0 |
| Hoyw / Lesbiaidd | 0 | 0 |
| Heterorywiol | 4 | 20 |
| Trawsryweddol | 0 | 0 |
| Gwell Peidio â Dweud | 0 | 9 |
| **Cyfanswm** | **4** | **29** |

## Cyflogaeth wedi dod i ben

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Ymddeoliad | 1 | 19 |
| Ymadawedig | 0 | 0 |
| Afiechyd | 0 | 0 |
| Ymddiswyddiad | 1 | 1 |
| Diswyddiad | 2 | 9 |
| Terfyniad Contract | 0 | 0 |
| Trosglwyddiad i Wasanaeth Tân Arall | 0 | 0 |
| Heb ei Ddatgelu | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** | **29** |



# Recriwtio Ar Alwad (01 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023)

## Rhywedd

| | |
|---|---|
| Benywaidd | 4 |
| Gwrywaidd | 43 |
| **Cyfanswm** | **47** |

## Anabledd (Datganedig)

| | |
|---|---|
| Benywaidd | 0 |
| Gwrywaidd | 2 |
| **Cyfanswm** | **2** |

## Oedran

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| 16-24 | 0 | 16 |
| 25-34 | 2 | 11 |
| 35-44 | 0 | 12 |
| 45-54 | 2 | 3 |
| 55-64 | 0 | 1 |
| 65+ | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** | **43** |

## Hil/Ethnigrwydd

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Tsieineaidd | 0 | 0 |
| Gwyn ac Asiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 0 | 0 |
| Bangladeshaidd | 0 | 0 |
| Indiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn Prydeinig | 4 | 43 |
| Gwyn Arall | 0 | 0 |
| Cymysg Arall | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** | **43** |

## Crefydd neu Gred

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Cristnogaeth | 2 | 10 |
| Islam | 0 | 0 |
| Bwdhaeth | 0 | 0 |
| Siciaeth | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 1 |
| Dim | 2 | 29 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 0 | 3 |
| **Cyfanswm** | **4** | **43** |

## Statws Priodasol

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Sengl | 0 | 20 |
| Priod | 2 | 9 |
| Â Phartner | 1 | 4 |
| Wedi Ysgaru | 0 | 2 |
| Gweddw | 0 | 0 |
| Partneriaeth Sifil | 0 | 2 |
| Wedi Gwahanu | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 1 | 6 |
| **Cyfanswm** | **4** | **43** |

## Hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth â'ch rhywedd pan gawsoch eich geni

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Ydy | 3 | 43 |
| Nac ydy | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** | **43** |

# Ymadawyr Ar Alwad (01 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023)

## Rhywedd

| | |
|---|---|
| Benywaidd | 7 |
| Gwrywaidd | 60 |
| **Cyfanswm** | **67** |

## Anabledd (Datganedig)

| | |
|---|---|
| Benywaidd | 0 |
| Gwrywaidd | 2 |
| **Cyfanswm** | **2** |

## Oedran

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| 16-24 | 1 | 7 |
| 25-34 | 4 | 20 |
| 35-44 | 1 | 15 |
| 45-54 | 1 | 10 |
| 55-64 | 0 | 6 |
| 65+ | 0 | 2 |
| **Cyfanswm** | **7** | **60** |

## Hil/Ethnigrwydd

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Tsieineaidd | 0 | 0 |
| Gwyn ac Asiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 0 | 0 |
| Bangladeshaidd | 0 | 0 |
| Indiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn Prydeinig | 7 | 60 |
| Gwyn Arall | 0 | 0 |
| Asiaidd a Gwyn | 0 | 0 |
| Cymysg Arall | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **7** | **60** |

## Crefydd neu Gred

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Cristnogaeth | 2 | 28 |
| Islam | 0 | 0 |
| Bwdhaeth | 0 | 0 |
| Siciaeth | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 |
| Dim | 5 | 26 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 0 | 6 |
| **Cyfanswm** | **7** | **60** |

## Statws Priodasol

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Sengl | 5 | 33 |
| Priod | 1 | 19 |
| Wedi Ysgaru | 0 | 4 |
| Gweddw | 0 | 0 |
| Partneriaeth Sifil | 0 | 1 |
| Wedi Gwahanu | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 1 | 3 |
| **Cyfanswm** | **7** | **60** |

## Hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth â'ch rhywedd pan gawsoch eich geni

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Ydy | 7 | 55 |
| Nac ydy | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 0 | 5 |
| **Cyfanswm** | **7** | **60** |

## Cyfeiriadedd Rhywiol

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Deurywiol | 1 | 1 |
| Hoyw / Lesbiaidd | 1 | 0 |
| Heterorywiol | 4 | 54 |
| Trawsryweddol | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 1 | 5 |
| **Cyfanswm** | **7** | **60** |

## Cyflogaeth wedi dod i ben

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Ymddeoliad | 0 | 6 |
| Ymadawedig | 0 | 0 |
| Afiechyd | 0 | 0 |
| Ymddiswyddiad | 7 | 50 |
| Diswyddiad | 0 | 3 |
| Terfyniad Contract | 0 | 0 |
| Trosglwyddiad i Wasanaeth Tân Arall | 0 | 0 |
| Cwrs heb ei Gwblhau | 0 | 1 |
| Heb ei Ddatgelu | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **4** | **60** |

# Recriwtio Staff Cefnogol (01 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023)

## Rhywedd

| | |
|---|---|
| Benywaidd | 27 |
| Gwrywaidd | 13 |
| **Cyfanswm** | **40** |

## Anabledd (Datganedig)

| | |
|---|---|
| Benywaidd | 0 |
| Gwrywaidd | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** |

## Oedran

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| 16-24 | 8 | 2 |
| 25-34 | 7 | 5 |
| 35-44 | 7 | 1 |
| 45-54 | 2 | 3 |
| 55-64 | 3 | 2 |
| 65+ | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **27** | **13** |

## Hil/Ethnigrwydd

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Tsieineaidd | 0 | 0 |
| Gwyn ac Asiaidd | 0 | 1 |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 0 | 0 |
| Bangladeshaidd | 0 | 0 |
| Indiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn Prydeinig | 21 | 9 |
| Gwyn Arall | 0 | 0 |
| Cymysg Arall | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 6 | 3 |
| **Cyfanswm** | **27** | **13** |

## Crefydd neu Gred

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Cristnogaeth | 1 | 1 |
| Islam | 0 | 0 |
| Bwdhaeth | 0 | 0 |
| Siciaeth | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 |
| Dim | 4 | 4 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 22 | 8 |
| **Cyfanswm** | **27** | **13** |

## Statws Priodasol

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Sengl | 12 | 5 |
| Priod | 7 | 6 |
| Wedi Ysgaru | 1 | 1 |
| Gweddw | 3 | 0 |
| Partneriaeth Sifil | 0 | 0 |
| Wedi Gwahanu | 0 | 1 |
| Arall | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **23** | **13** |

## Hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth â'ch rhywedd pan gawsoch eich geni

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Ydy | 13 | 7 |
| Nac ydy | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 14 | 6 |
| **Cyfanswm** | **27** | **13** |

## Cyfeiriadedd Rhywiol

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Deurywiol | 0 | 0 |
| Hoyw / Lesbiaidd | 0 | 0 |
| Heterorywiol | 19 | 8 |
| Trawsryweddol | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 8 | 5 |
| **Cyfanswm** | **27** | **13** |

# Ymadawyr Staff Cefnogol (01 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023)

## Rhywedd

| | |
|---|---|
| Benywaidd | 18 |
| Gwrywaidd | 16 |
| **Cyfanswm** | **34** |

## Anabledd (Datganedig)

| | |
|---|---|
| Benywaidd | 0 |
| Gwrywaidd | 0 |
| **Cyfanswm** | **0** |

## Oedran

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| 16-24 | 1 | 0 |
| 25-34 | 7 | 4 |
| 35-44 | 1 | 4 |
| 45-54 | 5 | 4 |
| 55-64 | 4 | 4 |
| 65+ | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **18** | **16** |

## Hil/Ethnigrwydd

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Tsieineaidd | 0 | 0 |
| Gwyn ac Asiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 0 | 0 |
| Bangladeshaidd | 0 | 0 |
| Indiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn Prydeinig | 12 | 16 |
| Gwyn Arall | 0 | 0 |
| Asiaidd a Gwyn | 0 | 0 |
| Cymysg Arall | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 6 | 0 |
| **Cyfanswm** | **27** | **13** |

## Crefydd neu Gred

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Cristnogaeth | 2 | 7 |
| Islam | 0 | 0 |
| Bwdhaeth | 0 | 0 |
| Siciaeth | 0 | 0 |
| Arall | 1 | 0 |
| Dim | 2 | 4 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 13 | 5 |
| **Cyfanswm** | **27** | **16** |

## Statws Priodasol

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Sengl | 7 | 2 |
| Priod | 9 | 11 |
| Wedi Ysgaru | 1 | 1 |
| Gweddw | 0 | 0 |
| Partneriaeth Sifil | 0 | 1 |
| Wedi Gwahanu | 0 | 0 |
| Arall | 1 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **18** | **16** |

## Hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth â'ch rhywedd pan gawsoch eich geni

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Ydy | 10 | 13 |
| Nac ydy | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 8 | 3 |
| **Cyfanswm** | **18** | **16** |

## Cyfeiriadedd Rhywiol

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Deurywiol | 0 | 0 |
| Hoyw / Lesbiaidd | 0 | 0 |
| Heterorywiol | 9 | 14 |
| Trawsryweddol | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 9 | 2 |
| **Cyfanswm** | **18** | **16** |

## Cyflogaeth wedi dod i ben

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Ymddeoliad | 2 | 2 |
| Ymadawedig | 0 | 0 |
| Afiechyd | 0 | 0 |
| Ymddiswyddiad | 15 | 12 |
| Diswyddiad | 0 | 1 |
| Terfyniad Contract | 1 | 1 |
| Heb ei Ddatgelu | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **48** | **16** |



# Data Dyrchafiadau (01 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023)

## Rhywedd

| | |
|---|---|
| Benywaidd | 20 |
| Gwrywaidd | 54 |
| **Cyfanswm** | **74** |

## Anabledd (Datganedig)

| | |
|---|---|
| Benywaidd | 1 |
| Gwrywaidd | 4 |
| **Cyfanswm** | **5** |

## Oedran

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| 16-24 | 0 | 0 |
| 25-34 | 6 | 7 |
| 35-44 | 7 | 17 |
| 45-54 | 5 | 29 |
| 55-64 | 2 | 1 |
| 65+ | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **20** | **54** |

## Hil/Ethnigrwydd

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Tsieineaidd | 0 | 0 |
| Gwyn ac Asiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 0 | 0 |
| Bangladeshaidd | 0 | 0 |
| Indiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn Prydeinig | 20 | 52 |
| Gwyn Arall | 0 | 0 |
| Asiaidd a Gwyn | 0 | 0 |
| Cymysg Arall | 0 | 1 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 0 | 1 |
| **Cyfanswm** | **20** | **54** |

## Crefydd neu Gred

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Cristnogaeth | 5 | 19 |
| Islam | 0 | 0 |
| Bwdhaeth | 0 | 0 |
| Siciaeth | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 |
| Dim | 5 | 17 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 10 | 18 |
| **Cyfanswm** | **20** | **54** |

## Statws Priodasol

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Sengl | 8 | 16 |
| Priod | 8 | 34 |
| Â Phartner | 3 | 2 |
| Wedi Ysgaru | 0 | 0 |
| Gweddw | 0 | 0 |
| Partneriaeth Sifil | 0 | 0 |
| Wedi Gwahanu | 0 | 2 |
| Arall | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 1 | 0 |
| **Cyfanswm** | **20** | **54** |

## Hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth â'ch rhywedd pan gawsoch eich geni

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Ydy | 17 | 45 |
| Nac ydy | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 3 | 9 |
| **Cyfanswm** | **20** | **54** |

## Sexual Orientation

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Deurywiol | 0 | 1 |
| Hoyw / Lesbiaidd | 0 | 0 |
| Heterorywiol | 15 | 41 |
| Trawsryweddol | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 5 | 12 |
| **Cyfanswm** | **20** | **54** |

# Data Trosglwyddo Gweithwyr (01 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023)

## Rhywedd

| | |
|---|---|
| Benywaidd | 2 |
| Gwrywaidd | 19 |
| **Cyfanswm** | **21** |

## Anabledd (Datganedig)

| | |
|---|---|
| Benywaidd | 0 |
| Gwrywaidd | 1 |
| **Cyfanswm** | **1** |

## Oedran

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| 16-24 | 0 | 0 |
| 25-34 | 1 | 3 |
| 35-44 | 0 | 4 |
| 45-54 | 0 | 10 |
| 55-64 | 1 | 2 |
| 65+ | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2** | **19** |

## Hil/Ethnigrwydd

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Tsieineaidd | 0 | 0 |
| Gwyn ac Asiaidd | 0 | 1 |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 0 | 0 |
| Bangladeshaidd | 0 | 0 |
| Indiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn Prydeinig | 2 | 18 |
| Gwyn Arall | 0 | 0 |
| Asiaidd a Gwyn | 0 | 0 |
| Cymysg Arall | 0 | 0 |
| Gwell Peidio â Dweud | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2** | **19** |

## Crefydd neu Gred

| | Female | Male |
|---|---|---|
| Cristnogaeth | 1 | 7 |
| Islam | 0 | 0 |
| Bwdhaeth | 0 | 1 |
| Siciaeth | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 |
| Dim | 0 | 5 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 1 | 6 |
| **Cyfanswm** | **2** | **19** |

## Statws Priodasol

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Sengl | 2 | 5 |
| Priod | 0 | 13 |
| Â Phartner | 0 | 1 |
| Wedi Ysgaru | 0 | 0 |
| Gweddw | 0 | 0 |
| Partneriaeth Sifil | 0 | 0 |
| Wedi Gwahanu | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2** | **19** |

## Hunaniaeth o ran rhywedd yr un peth â'ch rhywedd pan gawsoch eich geni

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Ydy | 1 | 15 |
| Nac ydy | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 1 | 4 |
| **Cyfanswm** | **2** | **19** |

## Cyfeiriadedd Rhywiol

| | Benywaidd | Gwrywaidd |
|---|---|---|
| Deurywiol | 0 | 0 |
| Hoyw / Lesbiaidd | 0 | 0 |
| Heterorywiol | 1 | 13 |
| Trawsryweddol | 0 | 0 |
| Gwell ganddynt beidio â dweud | 1 | 6 |
| **Cyfanswm** | **2** | **19** |

# Data a Gasglwyd drwy Systemau Cofnodi Digwyddiadau'r Gwasanaeth

(01 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023)

## Oedran yr Anffodusion

| | |
|---|---|
| <16 | 160 |
| 17-25 | 111 |
| 26-40 | 174 |
| 41-55 | 153 |
| 56-70 | 223 |
| 70+ | 537 |
| Oedran anhysbys | 532 |
| **Cyfanswm** | **1890** |

## Rhywedd

| | |
|---|---|
| Benywaidd | 806 |
| Gwrywaidd | 1052 |
| Anhysbys | 23 |
| Heb ei Ddatgan | 9 |
| **Cyfanswm** | **1890** |

## Hil/Ethnigrwydd

| | |
|---|---|
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Bangladeshaidd | 0 |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Indiaidd | 10 |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Asiaidd Arall | 9 |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Pacistanaidd | 3 |
| Du neu Ddu Prydeinig - Affricanaidd | 1 |
| Du neu Ddu Prydeinig - Caribïaidd | 4 |
| Du neu Ddu Prydeinig - Du Arall | 0 |
| Tsieineaidd | 3 |
| Cymysg - Cymysg Arall | 1 |
| Cymysg - Gwyn ac Asiaidd | 2 |
| Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd | 3 |
| Cymysg - Gwyn a Du Caribïaidd | 1 |
| Anhysbys/Heb ei Ddatgan | 109 |
| Gwyn - Prydeinig | 1708 |
| Gwyn - Gwyddelig | 7 |
| Gwyn - Gwyn Arall | 29 |
| **Cyfanswm** | **1890** |



ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL

01 Ebrill 2022 – 31 Mawrth 2023

# Darganfyddwch fwy

**Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg ac yn Saesneg - byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddwy iaith a byddwn yn ateb yn eich dewis iaith heb oedi. Rydym yn croesawu galwadau yn y Gymraeg ac yn Saesneg**

Mae ein gwefan yn cynnwys gwybodaeth fanylach am feysydd a adroddir yn y ddogfen hon. Yn adran Cynlluniau a Pherfformiad ein gwefan cewch wybodaeth am: -

- Gynlluniau Corfforaethol
- Cynlluniau Gwella Blynyddol
- Adroddiadau Ymgynghori
- Adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru
- Adroddiadau Dangosyddion Perfformiad Cymru
- Siarter Ymateb i Danau mewn Anheddau ar gyfer Cymru Gyfan

Rydym yn croesawu eich sylwadau neu awgrymiadau ar gyfer gwelliannau cynllunio yn y dyfodol.

I roi eich adborth, gallwch gysylltu â ni drwy ein gwefan **www.tancgc.gov.uk,** ein ffonio ar **0370 6060699** neu ysgrifennu atom yn y cyfeiriad yma: Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Heol Llwyn Pisgwydd, Caerfyrddin, SA31 1SP.

Fel arall, gallwch anfon e-bost atom yn **mail@mawwfire.gov.uk**

**Fersiynau Amgen**
Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch. Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn iaith neu fformat arall, gan gynnwys sain, cysylltwch â ni ar: **0370 6060699** neu e-bostiwch: **mail@mawwfire.gov.uk**

**HOFFI** DILYN **RHANNU**
**LIKE** FOLLOW **SHARE**

**Ein Negeseuon Diogelwch**
Our Safety Messages

**Adnoddau Dynol**
Human Resources

JR1707